| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **5 Tachwedd 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Barbara Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Effeithlonrwydd y Gweithlu** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar y trafodaethau effeithlonrwydd y gweithlu a gynhaliwyd gydag undebau llafur cydnabyddedig, ac yn manylu ar ganlyniad y bleidlais undeb llafur ddiweddar ar gynigion i gyflawni effeithlonrwydd y gweithlu sy'n weddill o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig cyfredol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi diweddariad i'r Cyngor Llawn ar drafodaethau'r gweithlu ac, yn sgil canlyniad cadarnhaol i bleidlais aelodau'r Undebau Llafur, cael cytundeb y Cyngor llawn i weithredu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r newid parhaol i ychwanegiadau a gynigiwyd i weithwyr newydd a phenodiadau i swyddi dyrchafiad, a'r diwrnod ychwanegol o wyliau digyflog ar gyfer 2014/15 yn unig fel modd o gyfarfod ag arbedion Effeithlonrwydd y Gweithlu sy'n weddill o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

## 4. Manylion am yr Adroddiad.

Yn sgil Cyngor ar 7 Mai 2013 sicrhaodd yr undebau llafur ganlyniad cadarnhaol mewn ail bleidlais i'w haelodau ar y cynnig i ddileu lwfans defnyddiwr angenrheidiol o 1 Mehefin 2013 gyda chyfnod trawsnewidiol ar gyfer gweithrediad llawn cyfradd milltiroedd HMRC ar 1 Gorffennaf 2014.

Fel rhan o'r cytundeb hwn cytunodd yr undebau llafur i drafod dau fater ymhellach:

- Arbedion parhaol i'r balans arbedion effeithlonrwydd y gweithlu o £72k sy'n ofynnol dan y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2012/2015, ac
- Arbedion o £143k yn 2014/15 i gyfarfod â chostau'r trefniadau trawsnewid a gytunwyd i gefnogi gweithredu'r newidiadau i lwfansau defnyddiwr car angenrheidiol.

Cynhaliwyd trafodaethau llawn ac ystyrlon rhwng y Cyngor fel cyflogwr a'r undebau llafur cydnabyddedig dros yr haf. Trafodwyd sawl dewis trwy'r broses hon (gweler

Atodiad 1 am wybodaeth bellach) cyn cyrraedd cytundeb ar gynnig y byddai'r undebau llafur yn rhoi pleidlais arno i'w haelodau.

Ym mis Medi, cynhaliodd yr undebau llafur cydnabyddedig: Unsain, GMB ac Unite bleidlais i'w haelodau ar y cynnig canlynol.

i. O 1 Hydref 2013 bydd ychwanegiad cynyddol sy'n ddyledus i weithwyr newydd a gweithwyr cyfredol mewn swyddi newydd er enghraifft, gweithwyr cyfredol yn symud i swydd ar raddfa uwch yn digwydd naill ai ym mis Ebrill neu fis Hydref, gyda'r ychwanegiad cynyddol cyntaf yn dod i rym ar ôl lleiafswm o 12 mis ac uchafswm o 18 mis ar ôl cychwyn yn y swydd, yn dibynnu ar ddyddiad cychwyn. Ar ôl hynny telir ychwanegiadau yn flynyddol naill ai yn Ebrill neu Hydref.

   | **Dyddiad cychwyn** | **Dyddiad Cynyddu** |
   |---|---|
   | 1 Hydref 2013 | 1 Hydref 2014 |
   | 2 Hydref 2013 i 1 Ebrill 2014 | 1 Ebrill 2015 |
   | 2 Ebrill 2014 i 1 Hydref 2014 | 1 Hydref 2015 |
   | 2 Hydref 2014 i 1 Ebrill 2015 | 1 Ebrill 2016 |

   Bydd y cynnig hwn yn gymwys i'r holl staff ac eithrio athrawon.

   Amcangyfrifir y bydd y newid hwn yn creu arbedion digonol i gyfarfod â'r arbediad o £72k y gofynnir amdano yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig ar sail rheolaidd.

ii. Yn 2014/15 yn unig, bydd gweithwyr yn colli 1 diwrnod o gyflog ac yn gyfnewid yn gallu cymryd diwrnod ychwanegol o wyliau.

   Bydd y cynnig hwn yn gymwys i'r holl staff, heblaw'r rhai mewn ysgolion.

   Cyfrifwyd bod y newid hwn ar gyfer 2014/15 yn unig yn creu arbedion i gyfrannu'n sylweddol at y costau trawsnewidiol o £143k ar sail na fydd yn rheolaidd.

Cytunodd y Uwch Dîm Arweinyddiaeth, er gwaethaf amheuon am y diwrnod gwyliau di-dâl a'i effaith ar staff a chyflawni gwasanaeth, yn ysbryd trafod, i gefnogi cynigion yr Undebau Llafur.

Cynhaliodd yr undebau llafur bleidlais i'w haelodau ar y ddau gynnig yn ystod y cyfnod 30 Medi i 18 Hydref a derbyniwyd y ddau gynnig gan aelodau'r undebau llafur.

Bydd trafodaethau'n parhau gyda'r undebau llafur a'r ar fanylion gweithredu'r ddau gynnig.

Gofynnir am gymeradwyaeth y Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i Delerau ac Amodau i weithredu'r cytundeb a gyrhaeddwyd gyda'r undebau llafur ar y mesurau hyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae hyn yn hanfodol i'r awdurdod gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r effaith ar wasanaethau yn ddibynnol ar ba arbedion y cytunir arnynt wrth symud ymlaen. Ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm â'r rhain gan mai arbedion effeithlonrwydd ydynt. Os na weithredir arbedion effeithlonrwydd y gweithlu, byddai'n rhaid canfod arbedion cyfatebol o fannau eraill.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Atodir copi o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 2.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Cafwyd trafodaethau helaeth gyda'r undebau llafur cydnabyddedig. Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a danfonwyd nodyn briffio i bob Cynghorydd er gwybodaeth cyn y bleidlais. Cyflwynwyd adroddiad i'r CBYLl ar 9 Hydref 2013 a chytunodd y pwyllgor i gymeradwyo'r cynigion i'r Cyngor Llawn, a chymryd bod y cynigion yn cael eu cefnogi gan aelodaeth yr undebau llafur mewn pleidlais.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd y mesurau y cytunwyd arnynt yn cyfrannu at yr arbedion gofynnol ar gyfer 2014/15. Bydd y blynyddoedd a ddaw yn cyflwyno'r pwysau ariannol mwyaf heriol mae'r Cyngor wedi wynebu ac mae'n anochel y bydd angen mwy o arbedion i fantoli'r gyllideb yn 2014/15 a 2015/16.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes risgiau ynghlwm â'r cynigion hyn heblaw rheoli'r gwyliau di-dâl a sicrhau bod trefn ddigonol ar gael i gyflawni gwasanaethau llinell flaen. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wahanol i reoli gwyliau blynyddol ac mae gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer hyn. Cyfrifwyd arbedion gan gymryd ystyriaeth o gost cysgodi angenrheidiol. Mae'r risgiau yn fwy os na chyflawnir arbedion trwy'r cynnig hwn, tra byddai arbedion a thoriadau llai derbyniol yn angenrheidiol a allai gyflwyno risgiau gwahanol i'r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Pŵer i wneud y penderfyniad yw adran112 Deddf Llywodraeth Leol 1972